Cynefin Consultants

Newsletter

Issue 1

1 New York Cottages, Bangor Road,
Penmaenmawr, Conwy LL34 6NP
Tel: 01492 622272
email: info@cynefin.co.uk ~ www.cynefin.co.uk

Ynghylch Cynefin

Croeso i rifyn cyntaf cylchlythyr Cynefin Consultants lle 'rydym yn ceisio rhoi gwybodaeth i'n cleiantau a chymdeithion , o'r gorffennol, presennol ac, o bosibl, y dyfodol, ynglŷn â'r datblygiadau diweddaraf yn y busnes.

Rhag ofn nad ydych yn ymwybodol o'r ystod o wasanaethau 'rydym yn eu cynnig mae'r rhain yn cynnwys:

- **Gwasanaethau cynllunio** - cyngor a chymorth gyda cheisiadau cynllunio ac apeliadau.
- **Gwerthusiad amgylcheddol** - asesu effeithiau cynnigion datblygu ar yr amgylchedd.
- **Ymchwil a chyllido** - helpu'ch cynllun i gwrdd a gofynion cyrff ariannu a'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau.

Gwasanaeth Cynllunio Mwynau

Fe unwyd arbenigedd cynllunio mewnol Cynefin gyda gwybodaeth a phrofiad ymarferol cwmni ***"Slate Ecology"*** i lansio gwasanaeth newydd wedi ei lunio'n arbennig ar gyfer gweithredwyr mwynau yng ngogledd Cymru.

Gallwn yn awr gynnig gwasanaeth gynhwysfawr o baratoi'r cais cynllunio gwreiddiol i weithredu a rheoli amod tirlunio, yr oll mewn modd sydd wedi ei lunio i gwrdd a gofynion arbennig eich safle.

Cynefin yn symud i "New York"!

Yn ddiweddar sefydlodd Cynefin swyddfa newydd ym Mythynnod New York, Penmaenmawr, adeiladau o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg sydd wedi eu hadfer a'u trosi'n swyddfeydd.

Fel yr eglurai cadeirydd y cwmni, Yr Athro Tom Pritchard OBE :
"Yn ogystal a'r pymtheng mlynedd 'rydym wedi bod yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleiantau yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn bennaf, yn fwy diweddar 'rydym wedi bod yn ymgymryd a llawer mwy o waith yng ngogledd ddwyrain Cymru. Mae Penmaenmawr yn cynnig lleoliad strategol ardderchog i ni er mwyn cwrdd â gofynion ein rhestr gynyddol o gleiantiaid ar draws y rhanbarth. Mae bythynnod New York eu hunain yn cynnig enghraifft o ddatblygiad cynaliadwy tebyg i'r hyn mae ein cwmni wedi bod yn hyrwyddo dros y blynyddoedd, ac 'rydym yn edrych ymlaen yn fawr at ddatblygu'r cyfleon newydd am fusnes a gynigir gan ein safle newydd."

Mae croeso i chi alw i'n gweld ar unrhyw adeg. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â

Rhys Roberts
1 New York Cottages, Bangor Road,
Penmaenmawr, Conwy LL34 6NP
Tel: 01492 622272
email: info@cynefin.co.uk ~ www.cynefin.co.uk